**<u>Cofnodion Cyfarfod CCG 24.11.22</u> Neuadd Cymuned Glantwymyn**

**19:416**: **Presennol**: Gareth Wyn Jones (Cadeirydd), Deryck Lewis, Bedwyr Fychan, Gareth Owen, William Owen, Aled Griffiths, Gwenfair Rhys-Davies, Iwan Jones, Gwen Lloyd, Paul Hughes, Dafydd Evans, Huw Williams, Sandra Evans (Clerc)

**19:417: Ymddiheuriadau**: Elwyn Vaughan, Rhodri Wigley, Glyn Jones

**19:418:** Datganiadau o ddiddordeb: Dim

**19:419:** Cyflwyno a derbyn cofnodion Hydref 22 Cynigiwyd hwn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen.

Nodwyd nad oedd swyddog cyllid yn rhan o swyddogaeth Cynrychiolydd y Cyngor mewn cyfarfodydd llywodraethwyr Ysgol Glantwymyn

**19:420:** Adroddiad y Clerc: Nodwyd bod baner ambiwlans awyr wedi cael ei archebu ac y bydd dan ofal Iwan Jones.

**19:421: Cynllunio**

**19:422: Materion Ariannol ac eitemau i'w talu:**

**19:422:1: Diweddariad Cyfrifon 2019-20** Cafwyd cais am wybodaeth bellach gan Swyddfa Awdit Cymru sy'n edrych ar y Cyfrifon ar hyn o bryd. Mae'r holl wybodaeth ategol wedi cael ei hanfon.

**19:422:2: Derbyn Cyfrifon 2020-21** Nid yw WR wedi dychwelyd y cyfrifon ar eu gwedd derfynol i'r Cyngor i'w derbyn yn ôl dymuniad y Cyngor. Yn ffodus mae Swyddfa Awdit Cymru wedi ymestyn y dyddiad ar gyfer derbyn y cyfrifon tan ddiwedd Ionawr 2023. Cysylltir â Swyddfa Awdit Cymru i egluro'r oedi.

Nodir bod nifer o honiadau WR y tro diwethaf yn anghywir e.e.
Tâl y Clerc Nodwyd bod y gordaliad tybiedig a nodwyd gan WR yn yr awdit mewnol yn anghywir. Cysylltwyd â'r adran gyflogres a thrafodwyd gyda'r Cadeirydd. Mae cyflog y clerc wedi cael ei thalu a'i gofnodi'n gywir. Hefyd nid oedd arian yn ddyledus i Un Llais Cymru am y tâl aelodaeth. Mae'r siec wedi cael ei dychwelyd i'r Cyngor a'i dinistrio.

Derbyniwyd rhestr bellach o ymholiadau gan yr archwilwyr mewnol gan gynnwys honiad gwahanol am gyflog y clerc sef bod yr un daliad wedi cael ei wneud ddwywaith. Nid yw hyn yn wir. Codwyd hefyd bwyntiau newydd sbon a heb fod yn rhan o archwiliadau mewnol cynt. Trafodwyd y gofynion gan y Cyngor a thybiwyd bod yr archwilydd yn or-fanwl/ yn ddi-brofiad yn y maes. Cysylltir ag Un Llais Cymru i geisio cyngor.

**19:422:3: Gosod Praespt 2022-2023** Penderfynwyd cyflwyno cais am 11,700. 00 sef yr un faint â llynedd. Er y cafwyd £500.00 ychwanegol y llynedd ar gyfer costau etholiad, mae costau gwirioneddol yr etholiad yn fwy felly ceisiwyd yr un faint a llynedd i ateb y costau ychwanegol hynny.

**19:422:4: Taliadau**

- £1,112.41 Cyngor Sir Powys - Etholiadau 2022 (£310.03 Gward Cemaes, £310.03 Gward Darowen, £241.14 Gward Dulas, £251.19 Gward Llanwrin)
- Cyflog y Clerc Hydref 2022 £362.80
- PG Print Mail Signs £ 93.60 -baner i gefnogi ymgyrch achub Ambiwlans Awyr Canolbarth Cymru
- Torch y Lleng Prydeinig £20.00
- Nodwyd y bydd Gloversure, o"r 1af o Ragfyr ymlaen, yn cynyddu prisiau at £71.00 +TAW yr awr.

**19:423: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**Ysgol Glantwymyn Dafydd Evans** – Mynychodd Dafydd Gyfarfod Llywodraethwyr yn ddiweddar ac mae e'n falch o adrodd bod y sefyllfa'n iach o ran cyllid. Y pryder mwyaf yw'r costau ynni gan nad oes sicrwydd am beth a ddaw. Mae nifer o bosibiliadau'n cael eu hystyried gan Gyngor Sir Powys er mwyn arbed pres gan gynnwys cynnal sesiynau ar Zoom am ddiwrnod bob wythnos. Ar hyn o bryd mae Ysgol Glantwymyn yn annog y plant i wisgo mwy o ddillad, ac yn rhannu adnoddau ac edrych am grantiau i gael goleuadau newydd yn lle'r goleuadau stribed i arbed costau.

**EcoDyfi – Iwan Jones** – Nodwyd mai Tir Canol yw enw newydd y mudiad oedd yn O'r Mynydd i'r Môr Mae Eco Dyfi wedi cael gwahoddiad i ymuno â'r grŵp ar ei newydd wedd.

**Y Fforwm Cleifion – Gwenfair Rhys-Davies** O hyn allan bydd y Fforwm Cleifion yn anfon cofnodion eu cyfarfodydd at y Clerc i'w rhannu gyda'r Cynghorwyr.

Bydd y Fforwm Cleifion yn ceisio sicrhau bod Powys yn cydweithredu gydag Hywel Dda er mwyn cael yr adnoddau a gwasanaeth cleifion allanol yn safle newydd yr Ysbyty. Byddai hyn yn cynnwys apwyntiadau pelydr X, clinigau arbenigwyr cyflyrau cronig, gwasanaethau cyn ac ar ôl triniaethau ayyb ar gyfer yr ardal hon a de Gwynedd. Bydd y bwrdd cydweithredol ar y cyd yn dilyn argymhellion adroddiad Langley i sicrhau bod Bwrdd Iechyd Powys, Betsi Cadwaladr a Hywel Dda'n cydweithio. Gobeithir cynnal cyfarfod cyhoeddus cyn y gwanwyn.

Nodwyd y dylid cyflwyno unrhyw bryderon neu gwynion cael eu cyfeirio i Gyngor Iechyd Cymuned Powys https://powyscic.gig.cymru/

**Neuadd Glantwymyn – Paul Hughes** Mae Pwyllgor Neuadd Cymuned Glantwymyn yn fodlon rhoi lle i gadw filing cabinet y Cyngor.

**19:424: Mynwent Llanwrin – waliau** –Mae'r cadeirydd yn dal i wneud ymholiadau am y wal.

**Ywen** Mae Jon Anderson wedi bod yng ngolwg yr ywen a bydd yn gwneud arolwg EZRA sy'n costio £250.00. Yn dilyn hynny fe hysbysebir y gwaith.

Mae Rhodri Wigley yng ngofal y wal. Gan fod y gwaith yn arbenigol a bod ymholiadau helaeth wedi cael eu gwneud a does dim modd cael tri o bobl addas yn lleol, penderfynwyd na fyddai angen hysbysebu'r gwaith hwn.

**19:425: Meinciau** Gohiriwyd y drafodaeth tan y cyfarfod nesaf achos prinder amser

**19:426: Baw cŵn yng Nghemaes** Nodwyd bod trigolion Cemaes wedi prynu 3 bin ar gyfer baw cŵn yn y pentref gan nad oedd Powys yn gallu darparu rhai. Doedd Powys ddim yn gweld y ffordd yn glir i wneud hyn gan y byddai biniau unswydd ar gyfer baw cŵn yn drwm. Cysylltir eto â Chyngor Sir Powys i ofyn iddynt wagio'r biniau gan y byddant yn pasio drwy Gemaes beth bynnag. Cysylltir â'r Adran Phrif ffyrdd ac Adran Iechyd yr Amgylchedd i fynegi pryderon.

**19:427: Gohebiaeth** Llythyr gan Mr Emyr Pughe yn cyflwyno cais am osod mainc ym mynwent Darowen. Trafodir y fainc y tro nesaf achos cyfyngder amser.

> Gofynnwyd am ganiatâd i symud yr hysbysfwrdd. Cytunwyd yn unfrydol y dylid cael rhwydd hynt i'w symud i'r man mwyaf addas. Cytunwyd hefyd y gellir clirio'r brigau ac ati yng nghyffiniau bedd Thomas Richards. Nodwyd mai cyfrifoldeb teuluoedd fyddai cynnal a chadw'r beddau.
>
> Bydd Jon Anderson yn asesu'r ywen a chynnal arolwg EZRA. Cynigiwyd hwn gan Dafydd Evans ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen.

**19:428: Materion Priffyrdd a Phontydd**

- Giât Cemaes a Phont troed Cwmlline Cafwyd trafodaeth fuddiol gyda Mr. Richard Jones a ymwelodd â'r Cyngor. Tafodir y giât yng Nghemaes yn y dyfodol. Cysylltir â'r Adran Prif ffyrdd a'r adran iechyd yr amgylcheddoedd

- Llwybrau cyhoeddus - Llanwrin i Gae Adda Nodwyd bod pyst arwyddion wedi pydru. Cynigiodd Mr Richard Jones ddod eto i gynnal cyflwyniad Power Point am lwybrau cyhoeddus
- Ciosg Cemaes - Gohiriwyd y drafodaeth hon achos cyfyngder amser.
- Hysbysfwrdd Llanwrin Bydd y Cynghorydd William Owen yn trwsio hwn.
- halen

**19:429: Unrhyw Fater Arall**

- **Llyfrgell Machynlleth** - Gofynnwyd yn y cyfarfod diwethaf am farn y Cynghorwyr am gadw'r llyfrgell yn y fan lle mae neu ei chynnwys yn y datblygiad newydd yn Hyddgen. Roedd y Cynghorwyr yn unfrydol o blaid cadw'r llyfrgell lle mae gan ei fod yn gyfleus ac yn hygyrch i'r cyhoedd. Mynegwyd pryderon am ddiogelu disgyblion pe byddai'r llyfrgell ar yr un safle â'r ysgol. Nodwyd pe byddai rhaid symud y llyfrgell bod lleoliadau gwell ar gael megis Plas Machynlleth neu'r Ganolfan Hamdden. Cynhelir arolwg barn cyn hir. Bydd y Cynghorwyr yn lleisio barn y Cyngor yno.
- **Cwmlline** - Mae'r coed wrth y bont heb gael eu tocio ac yn beryg o hyd. Adroddir hwn eto.
- **Baner** i gefnogi ymgyrch achub Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Canolbarth Cymru – Gosodir baner ar gylchfan Glantwymyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.55

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau 15.12.22

**Cyfarfod Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes 24.11.22**

- **Pont Cwmlline** Yn dilyn ymweliad gan Richard Jones, Cyngor Sir Powys, penderfynwyd adnewyddu pont Cwmlline. Mae £2,000 ar gael o gronfa Dolau Dyfi tuag at y costau a bydd y melinau gwynt yn cyfrannu £1300. Ystyriwyd y byddai hyn o les mawr i gymuned Cwmlline yn ogystal â chymunedau cyfagos gan ganiatáu teithiau cerdded ar ddwy ochr y cwm. Cynigiwyd hyn gan Paul Hughes ac fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan a'r Cynghorwyr yn unfrydol. Cyngor Sir Powys fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r bont.
- **Cylch Ti a Fi Glantwymyn** – Cais am arian i gefnogi gweithgareddau. Bydd hwn yn cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf i roi ystyriaeth deg, wedi gweld mantolen a chael mwy o amser.